

Cyfarfod Bwrdd Arbennig Llais Cofnodion Drafft 22 Ebrill 2024

Aelodau:

Medwin Hughes	Cadeirydd
Grace Quantock	Dirprwy Gadeirydd
Alyson Thomas	Prif Weithredwr
Bamidele Adenipekun	Anweithredol
Jack Evershed	Anweithredol
Karen Lewis	Anweithredol
Rajan Madhok	Anweithredol
Jason Smith	Anweithredol
Mwoyo Makoto	Aelod Cyswllt

Mynychwyr:

Ben Eaton	Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu
Richard Bevan	Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd a Phennaeth Llywodraethu
Kirsty Contreras-Stacey	Swyddog Llywodraethu

Croeso, cyflwyniadau, datganiadau o ddiddordeb ac ymddiheuriadau

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Barbara Harrington (Aelod Anweithredol) ac Angela Mutlow (Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol).
- 1.3 Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau neu wrthdaro buddiannau ynghylch yr eitemau ar yr agenda.

Cynllun Strategol Llais 2024-2027

- 1.1 Diolchodd y Prif Weithredwr i'r staff a'r gwirfoddolwyr am weithio'n galed i glywed gan bobl ledled holl gymunedau Cymru, a'r bobl a oedd wedi rhannu eu barn dros y flwyddyn ddiwethaf ar yr hyn sydd bwysicaf iddynt am eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- 1.2 Ar ôl dechrau gweithio fel corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2023, treuliodd ein blwyddyn gyntaf yn bwrw ymlaen â'r blaenoriaethau a etifeddwyd gan y cyn cynghorau iechyd cymuned, gan ymateb i faterion wrth iddynt godi, a chlywed mwy gan bobl am yr hyn roedden nhw eisiau i Llais ganolbwyntio arno.
- 1.3 Roedd yr ymgysylltu hwn â phobl Cymru, eu cynrychiolwyr a'n partneriaid wedi ein helpu i lunio'r amcanion a'r blaenoriaethau drafft ar gyfer Llais, a fydd yn arwain ein gwaith ar gyfer pobl Cymru dros y 3 blynedd nesaf.
- 1.4 Rhoddodd Ben Eaton crynodeb o'r blaenoriaethau a'r amcanion a nodir yn y Cynllun Strategol. Pwysleisiodd bwysigrwydd gyrru sgwrs genedlaethol yn ei blaen gyda phobl Cymru.
- 1.5 Roedd y Cynllun Strategol wedi'i ysgrifennu ar gyfer ein 3 blynedd nesaf. Yn ystod y cyfnod hwn byddai cynlluniau gwaith manwl yn cael eu datblygu i gyflawni'r strategaeth, gan ystyried yr heriau a'r newidiadau sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- 1.6 Yn ogystal â disgrifio'r meysydd ffocws allweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, roedd y Cynllun Strategol hefyd yn canolbwyntio ar werthoedd ac ymddygiadau Llais. Pwysleiswyd hefyd fod gan y Bwrdd, y cyhoedd, partneriaid a gwirfoddolwyr lais a dylanwad clir wrth weithredu'r 5 blaenoriaeth strategol allweddol dros y 3 blynedd nesaf. Amlinellwyd y 5 blaenoriaeth allweddol:
 1. Ysgogi sgwrs genedlaethol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol – **bydd Llais yn ymgysylltu â'r cyhoedd, partneriaid, a gwirfoddolwyr am system iechyd a gofal cymdeithasol y dyfodol.**

2. Gwthio am wasanaethau sy'n diwallu anghenion pawb – **bydd Llais yn ymgysylltu ac yn cynrychioli buddiannau pobl a chymunedau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau ledled Cymru.**
 3. Cydweithio'n well – **bydd Llais yn gweithio ar y cyd gyda'n gilydd a gyda'n partneriaid ac mewn ffyrdd symlach i wneud gwasanaethau'n well ac yn decach.**
 4. Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw – **bydd Llais yn gweithio gyda phobl a gwasanaethau i helpu i sicrhau bod technoleg newydd yn gweithio'n dda i bobl sydd angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.**
 5. Tyfu a gwella fel sefydliad - **bydd Llais yn tyfu ac yn gwella llywodraethu, prosesau ac ymgysylltu gan sicrhau bod y ffyrdd yr ydym yn gweithio yn iawn ar gyfer partneriaid a chymunedau sy'n gweithio ochr yn ochr â Llais.**
- 1.7 Diolchodd y Cadeirydd i Ben Eaton am ei drosolwg a gwahoddodd sylwadau gan aelodau'r bwrdd am y Cynllun Strategol drafft.
 - 1.8 Gofynnodd y Bwrdd am sicrwydd ynghylch sut y byddai'r ddogfen yn cael ei rhannu â phobl ledled Cymru. Eglurwyd y byddai'r ddogfen ar gael mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch, gyda fersiwn 'hawdd ei ddarllen' yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.
 - 1.9 Bydd ymwybyddiaeth hefyd yn cael ei godi trwy gyfryngau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, a dosbarthu i'r holl randdeiliaid allweddol. Bydd staff cenedlaethol a rhanbarthol yn rhannu ac yn cymryd rhan weithredol ar y Cynllun Strategol yn eu holl weithgareddau.
 - 1.10 Gofynnodd y Bwrdd sut y byddai'r Cynllun Strategol yn parhau i fod yn ddogfen fyw a gweithredol. Eglurwyd y byddai cynllun blynyddol yn cael ei gynhyrchu bob blwyddyn yn nodi'r gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a fyddai'n cyflawni blaenoriaethau'r cynllun strategol.

- 1.11 Byddai'n parhau i fod yn ddogfen fyw. Bydd cynnydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn yn erbyn matrices perfformiad y cytunwyd arno a thrwy broses o adnewyddu'r Cynllun Blynnyddol i symud ymlaen â'r meysydd blaenoriaeth a'r amcanion y cytunwyd arnynt, ond hefyd i gydnabod cyflawniadau.
- 1.12 Gofynnodd y Bwrdd sut y byddai'r sefydliad yn dangos cynnydd yn gyhoeddus a chyda'n partneriaid. Nodwyd y bydd adroddiadau perfformiad rheolaidd i'r Bwrdd yn ei alluogi i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun. Byddai hefyd ymgysylltu a chyfathrebu parhaus mewn cymunedau ac yn genedlaethol i ddangos cynnydd a phrofi ei effaith.
- 1.13 Cadarnhaodd y Prif Weithredwr mai elfen allweddol o'r strategaeth fyddai rhannu a llywio'r gwaith o fabwysiadu arfer da ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn bwysig i helpu i wneud yn siŵr bod y pethau sy'n gweithio'n dda i bobl mewn cymunedau yn gallu cael eu hymestyn allan, gan gynnwys i rannau eraill o Gymru.
- 1.14 Roedd hyrwyddo arfer da yn y modd hwn yn gyfle perffaith i yrru'r cynllun strategol yn ei flaen a manteisio ar y cyfleoedd i weithio'n agos gyda Gweithrediaeth newydd y GIG a sefydliadau eraill y GIG a darparwyr gofal cymdeithasol i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cydweithio'n dda er budd bobl Cymru.
- 1.15 Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr am y diweddariad. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r Prif Weithredwr, fel rhan o drefniadau cyfathrebu Llais, yn cyhoeddi datganiad misol i'r cyhoedd i dynnu sylw at waith Llais a'i brif lwyddiannau a'i effeithiau.
- 1.16 Cytunodd y Bwrdd ar y Cynllun Strategol. Cadarnhawyd y byddai'r Cynllun Strategol yn cael ei lansio mewn digwyddiad lansio arbennig ddydd Mercher 24 Ebrill 2024 yng Nghaerdydd.
- 1.17 Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu'n ymwneud â chynhyrchu'r Cynllun Strategol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:12yp